Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyngor Sir Ddinbych

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3713A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich Cyfrifon. Mae rhai materion y mae angen rhoi gwybod i chi amdanynt cyn eu cymeradwyo.


| | |
|---|---|
| Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Barn archwilio arfaethedig | 5 |
| Materion arwyddocaol sy’n deillio o’r archwiliad | 5 |
| Argymhellion | 9 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol | 10 |
| Atodiad 2 – Adroddiad Archwilio Arfaethedig | 13 |
| Atodiad 3 – Crynodeb o'r Cywiriadau a wnaed | 18 |
| Atodiad 4 – Argymhellion | 24 |

# Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon

## Cyflwyniad

1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch cyfrifon 2021-22 yn yr adroddiad hwn.

2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i dîm.

3 Nid yw archwilwyr byth yn gallu rhoi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi’u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai fel arall beri i’r sawl sy’n defnyddio’r cyfrifon gael ei gamarwain.

4 Pennwyd lefel berthnasedd o £4,136,000 ar gyfer archwiliad eleni.

5 Ceir rhai meysydd yn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i'r darllenydd, ac rydym wedi pennu lefel o berthnasedd is ar gyfer y rhain, fel a ganlyn:

- Cydnabyddiaeth ariannol uwch-swyddog £1,000
- Trafodiadau partïon cysylltiedig £10,000

6 Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni i raddau helaeth.

7 Byddwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ein cynnydd yn ei gyfarfod a drefnwyd ar gyfer 20 Medi 2023.

8 Yn ein barn broffesiynol, rydym ni wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; rydym yn parhau i fod yn annibynnol arnoch chi; ac nid yw ein gwrthrychedd wedi’i beryglu mewn unrhyw ffordd.

9 Nid oes unrhyw berthynas rhyngom ni a chithau y credwn y gallai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth. Rydym eisoes wedi eich hysbysu o fygythiad posibl i annibyniaeth a gwrthrychedd archwilydd sy'n codi ac yn cadarnhau bod y mesurau diogelu a nodir yn ein Cynllun Archwilio wedi’u gweithredu fel y bwriadwyd.

# Barn archwilio arfaethedig

10 Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni ar ôl i chi roi Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.

11 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' pan fo gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall, rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.

12 Mae'r Llythyr Sylwadau yn cynnwys rhai cadarnhadau y mae'n ofynnol i ni eu cael gennych chi o dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhad o wybodaeth benodol arall rydych chi wedi'i darparu i ni yn ystod ein harchwiliad.

13 Nodir ein hadroddiad archwilio arfaethedig yn **Atodiad 2**.

# Materion arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

14 Pan fyddwn yn nodi camddatganiadau, rydym yn eu trafod gyda'r rheolwyr sydd â'r opsiwn i ddiwygio ar eu cyfer. Pan fydd rheolwyr yn penderfynu peidio â diwygio, mae angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu gadarnhau eu penderfyniad er mwyn sicrhau eu bod yn cytuno.

15 Mae **Arddangosyn 1** yn nodi'r camddatganiadau yr ydym wedi'u nodi yn y datganiadau ariannol a drafodwyd gyda'r rheolwyr, ond y maent wedi dewis peidio â'u diwygio.

**Arddangosyn 1 – camddatganiadau nas cywirwyd**

| **Camddatganiadau nas cywirwyd yn Nodyn 13 – Eiddo, Peiriannau ac Offer** | |
|---|---|
| **£2,234,000** | Fel rhan o'r addasiad nam arfaethedig yn ymwneud â 'Tir ac Adeiladau Eraill', penderfynodd y Cyngor na fyddai'n trin £2,234,000 fel addasiad cyfnod blaenorol. Yn hytrach, proseswyd y cywiriad fel trafodiad yn ystod y flwyddyn a oedd yn effeithio ar y balansau cau ar gyfer 2021-22. |

## Camddatganiadau a gywirwyd

16 Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon yn wreiddiol sydd bellach wedi'u cywiro gan y rheolwyr. Fodd bynnag, rydym yn credu y dylid tynnu eich sylw at y rhain, a chânt eu nodi gydag esboniadau yn **Atodiad 3**.

## Materion arwyddocaol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

17 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn rhoi gwybod i chi am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Roedd pedwar mater yn codi yn y meysydd hyn eleni fel y dangosir yn **Arddangosyn 2.**

**Arddangosyn 2 – materion arwyddocaol sy’n deillio o'r archwiliad**

| Maes | Materion a nodwyd | Y ffordd ymlaen |
|---|---|---|
| **Cynnydd yng ngwerth Anheddau ac asedau eiddo’r Cyngor sydd wedi’u prisio o dan ddulliau 'cost amnewid dibrisiedig'** | Mae'r Cyngor fel arfer yn prisio ei bortffolio asedau eiddo bob pum mlynedd ar sail dreigl, yn unol â Chod CIPFA (y Cod). Fodd bynnag, mae'r Cod hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau wirio na fu unrhyw symudiadau perthnasol yng ngwerth asedau yn y cyfnod rhwng prisiadau ffurfiol.<br>O ystyried pwysau chwyddiant diweddar, byddai asedau sy'n cael eu prisio o dan y dull cost amnewid dibrisiedig yn debygol o fod yn destun cynnydd perthnasol mewn gwerth yn ystod 2021-22. O ganlyniad, mae'r Cyngor (yn unol â llawer o gynghorau eraill yng Nghymru) wedi cynnal ymarfer i godi gwerth asedau yr effeithiwyd arnynt yn 2021-22 gan ddefnyddio mynegeion priodol y diwydiant. Rydym yn fodlon bod y Cyngor, drwy ddilyn y dull hwn, wedi parhau i sicrhau bod gwerthoedd asedau eiddo o'r fath yng nghyfrifon 2021-22 yn rhesymol ym mhob ffordd berthnasol. Nodir gwerthoedd y cywiriadau sy'n deillio o'r ymarfer hwn ar gyfer cyflawnrwydd yn **Atodiad 3** i fanylu ar newidiadau o ffigurau'r cyfrif drafft. | Gweler yr argymhelliad yn **Arddangosyn 5** yn **Atodiad 4**. |

| Maes | Materion a nodwyd | Y ffordd ymlaen |
|---|---|---|
| **Newidiadau i gyfrifyddu a datgelu asedau seilwaith** | Yn debyg i awdurdodau lleol eraill, mae'r Cyngor wedi manteisio ar ryddhad dros dro ar gyfer datgeliadau is sy'n gysylltiedig ag asedau seilwaith y caniateir ar eu cyfer yn y Diweddariad i'r Cod a Manylebau ar gyfer Codau Asedau Seilwaith y Dyfodol a diwygiadau 2022 i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003.<br>Nid yw'r Awdurdod wedi datgelu cost gros a dibrisiant cronedig ar gyfer asedau seilwaith, oherwydd mae arferion adrodd hanesyddol a diffygion gwybodaeth canlyniadol yn golygu nad yw cost gros a dibrisiant cronedig yn cael eu mesur yn gywir ac ni fyddai'n cynrychioli sefyllfa asedau i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol yn gywir.<br>Mae'r rhyddhadau yn gynllun dros dro sydd â'r bwriad o ganiatáu i awdurdodau fynd i'r afael â'r diffygion gwybodaeth a pharatoi gwybodaeth gadarn i gefnogi gwerth cario ymlaen asedau seilwaith. Mae'r rhyddhad dros dro yn berthnasol i flynyddoedd ariannol hyd at a gan gynnwys 2024-25 yn unig. | Dim angen gweithredu pellach – datgelir y mater er gwybodaeth yn unig. |

| Maes | Materion a nodwyd | Y ffordd ymlaen |
|---|---|---|
| **Cyfyngiadau'r gofrestr asedau anghyfredol** | Mae Cod CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol cydnabod colledion nam yn y gronfa ailbrisio wrth gefn hyd at y graddau nad yw'r nam yn fwy na'r swm y gronfa ailbrisio wrth gefn (RR) ar gyfer yr un ased ac wedi hynny yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) cyn cael ei wrthdroi i'r cyfrif addasiad cyfalaf (CAA). Yn hanesyddol, roedd y Cyngor wedi cydnabod colledion nam a oedd yn deillio o asedau Anheddau'r Cyngor yn gyffredinol yn hytrach nag yn erbyn yr asedau unigol. Gan na allai'r Cyngor nodi'n bendant a oedd y namau hyn yn deillio o asedau penodol gyda chydbwysedd cronfa ailbrisio wrth gefn (RR) ai peidio, roedd risg bod postiadau yn y gorffennol i'r CAA a'r RR yn cael eu cam-ddatgan yn berthnasol. O ganlyniad, cynhaliodd y Cyngor ymarfer i ailedrych ar gofnodion cyfrifyddu yn y cofrestrau asedau anghyfredol sy'n dyddio'n ôl i 2016-17 i asesu'r effaith ar y balansau agoriadol ar gyfer 2021-22. Nodir gwerthoedd y cywiriadau sy'n deillio o'r ymarfer hwn ar gyfer cyflawnrwydd yn **Atodiad 3** i fanylu ar newidiadau o ffigurau'r cyfrif drafft.<br>Deallwn fod y Cyngor i fod i weithredu cyfriflyfr ariannol newydd yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25, a fydd yn ymgorffori cofrestr asedau newydd nad yw'n gyfredol. Rydym yn pwysleisio pwysigrwydd y cyfriflyfr newydd hwn wrth sicrhau bod asedau cyfredol yn cael eu cofnodi'n briodol yn y dyfodol. | Dim angen gweithredu pellach - datgelir y mater er gwybodaeth yn unig. |

| Maes | Materion a nodwyd | Y ffordd ymlaen |
|---|---|---|
| **Oedi yn y broses archwilio** | Mae gennym berthnasoedd gwaith da ac, yn y blynyddoedd blaenorol, gwnaethom gynnal rhestr o ymholiadau archwilio rhagorol a rannwyd gyda'r Cyngor yn rheolaidd. Oherwydd nifer o faterion sy'n gofyn am adnoddau ychwanegol, yn benodol y cynnydd mewn asedau, addasu cyfnod blaenorol ac adolygu triniaeth gyfrifyddu trafodiadau sy'n gysylltiedig â Hamdden Sir Ddinbych Cyf, arhosodd nifer o'r ymholiadau hyn yn weddill am gyfnod, gan arwain at oedi yn y broses archwilio. Mae'r oedi hwn yn debygol o effeithio ar y ffi archwilio derfynol a godir am y gwaith. Gan edrych ymlaen at 2022-23, rydym yn bwriadu defnyddio pecyn meddalwedd o'r enw INFLO i helpu i reoli llif gwybodaeth rhyngom ni a'r Cyngor. | Dim angen gweithredu pellach - datgelir y mater er gwybodaeth yn unig. . |

# Argymhellion

18 Mae'r argymhellion sy'n deillio o'n harchwiliad wedi'u nodi yn **Atodiad 4**. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwirio cynnydd o'i gymharu â nhw yn ystod yr archwiliad y flwyddyn nesaf. Pan fo unrhyw gamau gweithredu yn weddill, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac yn ei adrodd i chi yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

[Pennawd y corff archwiliedig]

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

20 Medi 2023

## Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2021-22

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o'r datganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n destun archwiliad) Cyngor Sir Ddinbych am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 at ddiben mynegi barn ar ba mor gywir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau'r rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU 2021-22; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â'r rhain;
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- Mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennau ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;

  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych wedi gofyn amdani gennym at ddibenion yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll tybiedig yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Sir Ddinbych ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â swyddogaethau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â chyfreithiau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodiadau partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt;

## Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi'u cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig yn briodol i sicrhau cydnabyddiaeth, mesur neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodiadau partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Pryd cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi ei gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi'u datgelu i'r archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol yn unigol a gyda'i gilydd i'r datganiadau ariannol yn gyffredinol.

## Sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb dros baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 20 Medi 2023.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi'i chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| Steve Gadd | David Stewart |
| Pennaeth Cyllid ac Eiddo | Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| 20 Medi 2023 | 20 Medi 2023 |

# Atodiad 2

## Adroddiad Archwilio Arfaethedig

### Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Ddinbych

#### Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Cyngor Sir Ddinbych; a
- Grŵp Cyngor Sir Ddinbych

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symudiadau ar y Cyfrif Refeniw Tai, a Datganiad Incwm a Gwariant Cyfrif Refeniw Tai a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Grŵp Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn y Grŵp, Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp, Mantolen y Grŵp, Datganiad Llif Arian Parod y Grŵp a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth eu paratoi yn gymwys mewn cyfraith a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22 a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ddinbych a Grŵp Cyngor Sir Ddinbych ar 31 Mawrth 2022 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22 a fabwysiadwyd gan y DU.

#### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a’r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu

disgrifio ymhellach yn yr adran o’m hadroddiad sy’n nodi cyfrifoldebau’r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar [Gyngor Sir Ddinbych a'r grŵp] yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi’i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig  ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Sir Ddinbych a'r grŵp i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi’r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol o ran busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i’r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar y rheini. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i’r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall yn ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon yn cael ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a pharatowyd yr Adroddiad Naratif yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22 ;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi’i baratoi yn unol â'r canllawiau.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth am Gyngor Sir Ddinbych a'r grŵp a'u hamgylcheddau a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt, os bydd y canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad Cyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 13, y swyddog cyllid cyfrifol sy’n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys datganiadau ariannol Grŵp Cyngor Sir Ddinbych, sy'n rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy’n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog cyllid cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Cyngor Sir Ddinbych a'r grŵp i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â’r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw’n briodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol

yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo’n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda’i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol o ran afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau’n cynnwys y canlynol:

- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Cyngor a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ddinbych a’r grŵp sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a’r
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu â pheidio cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: postio cyfnodolion anarferol, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tueddiadau a gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i drefn busnes arferol.
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyngor Sir Ddinbych a'r grŵp yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Sir Ddinbych a'r grŵp yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Sir Ddinbych a'r grŵp.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau’r datganiadau ariannol a phrofion dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â’r cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi’r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu; ac
- ymdrin â’r risg o dwyll pan fo rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion yn y dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i drefn busnes arferol.

Hefyd rwyf wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i'r holl dîm archwilio gan barhau i wylio am unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Sir Ddinbych a'r grŵp, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

## Tystysgrif cwblhau archwiliad

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ddinbych a'r grŵp yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
XX Medi 2023

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

# Atodiad 3

## Crynodeb o'r Cywiriadau a Wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, nodwyd y camddatganiadau canlynol sydd wedi'u cywiro gan y rheolwyr, ond ystyriwn y dylid eu dwyn i'ch sylw oherwydd eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau chi dros y broses adrodd ariannol.

**Arddangosyn 3: crynodeb o'r cywiriadau a wnaed**

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro |
|---|---|---|
| £24,655,000 | **Dadansoddiad Gwariant a Chyllido**<br>Mae'r addasiad rhwng y Sail Ariannu a'r sail Cyfrifyddu wedi cynyddu o (£13,525,000) i (£38,180,000) gyda chynnydd dilynol mewn gwariant net. | O ganlyniad i'r diwygiadau a wnaed i Anheddau a Thir ac Adeiladau Eraill y Cyngor yn Nodyn 13 (manylir isod). |
| £116,183,000 | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**<br>Mae gwariant gros wedi gostwng £27,975,000 o £405,524,000 i £377,549,000 gyda gostyngiad dilynol mewn gwariant net.<br><br>Cynyddu (Gwarged)/Diffyg ar ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol (£63,487,000), o (£48,015,000) i (£111,502,000).<br><br>Cynyddu colledion nam ar asedau nad ydynt yn gyfredol a godir i'r gronfa ailbrisio wrth gefn £24,721,000 o £10,959,000 i £35,680,000. | O ganlyniad i'r diwygiadau a wnaed i Anheddau a Thir ac Adeiladau Eraill y Cyngor yn Nodyn 13 (manylir isod). |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro |
|---|---|---|
| £88,076,000 | **Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn**<br>Cynyddu cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr £63,421,000 o (£125,280,000) i (£188,701,000).<br><br>Cynyddu’r addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail gyllido o dan y rheoliadau £24,655,000 o £4,657,000 i (£19,998,000). | O ganlyniad i'r diwygiadau a wnaed i Anheddau a Thir ac Adeiladau Eraill y Cyngor yn Nodyn 13 (manylir isod). |
| £126,908,000 | **Y Fantolen**<br>Cynyddu Anheddau'r Cyngor £19,671,000 o £139,074,000 i £158,745,000.<br><br>Cynyddu tir ac adeiladau eraill £37,930,000 o £281,745,000 i £319,675,000.<br><br>Cynyddu Asedau Treftadaeth £5,886,000 o £14,929,000 i £20,815,00.<br><br>Cynyddu Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £29,178,000 o (£146,060,000) i (£175,238,000).<br><br>Cynyddu Cyfrif Addasu Cyfalaf £34,243,000 o (£190,087,000) i (£224,330,000). | O ganlyniad i'r diwygiadau a wnaed i Anheddau a Thir ac Adeiladau Eraill y Cyngor yn Nodyn 13 (manylir isod). |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro |
|---|---|---|
| Dim effaith | **Datganiad Llif Arian Parod**<br>Gostwng (Gwarged) neu ddiffyg net darpariaeth gwasanaethau (£24,655,000) o (£12,631,000) i (£37,286,000).<br><br>Cynyddu addasiadau i (Warged) neu ddiffyg net ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn rhai arian parod £24,655,000 o (£20,826,000) i £3,829,000. | O ganlyniad i'r diwygiadau a wnaed i Anheddau a Thir ac Adeiladau Eraill y Cyngor yn Nodyn 13 (manylir isod). |
| £19,671,000 | **Nodyn 13 Eiddo, Peiriannau ac Offer**<br>Cynyddu Gwerth ar y Llyfrau Net Anheddau'r Cyngor o £139,074,000 i £158,745,000. | I adlewyrchu gwerth Anheddau'r Cyngor yn gywir oherwydd amrywiadau sylweddol mewn costau adeiladu o fewn blwyddyn ariannol 2021-22. |
| £37,930,000 | **Nodyn 13 Eiddo, Peiriannau ac Offer**<br>Cynyddu Gwerth ar y Llyfrau Net Tir ac Adeiladau eraill o £281,745,000 i £319,675,000. | I adlewyrchu gwerth Tir ac Adeiladau Eraill yn gywir oherwydd amrywiadau sylweddol mewn costau adeiladu o fewn blwyddyn ariannol 2021-22. |
| £5,886,000 | **Nodyn 38 Asedau Treftadaeth**<br>Cynyddu Gwerth ar y Llyfrau Net Asedau Treftadaeth o £14,929,000 i £20,815,00. | I adlewyrchu gwerth Asedau Treftadaeth yn gywir oherwydd amrywiadau sylweddol mewn costau adeiladu o fewn blwyddyn ariannol 2021-22. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro |
|---|---|---|
| £8,231,000 | **Nodyn 40 Addasiadau Cyfnod Blaenorol – Ailddatganwyd ar 31 Mawrth 2021**<br>Gostwng y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn o (£116,565,000) i (£108,234,000).<br><br>Cynyddu cyfrif Addasiad Cyfalaf o (£171,622,000) i (£179,953,000). | Ailddatgan y balansau agoriadol yn gywir yn dilyn yr adolygiad o daliadau nam y flwyddyn flaenorol. |

Mae'r cywiriadau uchod hefyd yn effeithio ar:

- Nodyn 6 - Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido
- Datganiad Incwm a Gwariant Cyfrif Refeniw Tai
- Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn y Grŵp
- Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp
- Mantolen y Grŵp
- Datganiad Llif Arian Parod y Grŵp

**Arddangosyn 4: materion eraill a nodwyd - crynodeb o'r cywiriadau a wnaed**

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro |
|---|---|---|
| £3,320,000 | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**<br>Gostwng gwariant gros ac incwm gros ar gyfer cynllunio a diogelu'r cyhoedd £3,320,000. | I gyfrif yn gywir am arian grant a ddelir gan y Cyngor fel yr Awdurdod Arweiniol ar gyfer y prosiect Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro |
| --- | --- | --- |
| £302,000 | **Nodyn 6 Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido**<br>Gostwng y Cyfrif Addasu Cyfalaf o (£10,269,000) i (£10,571,000).<br><br>Cynyddu'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf gohiriedig o £500,000 i £802,000. | I gyfrif yn gywir am dderbyniadau cyfalaf gohiriedig sy'n ymwneud â Hamdden Sir Ddinbych Cyf.. |
| Datgeliad yn unig | **Nodyn 13 Eiddo, Peiriannau ac Offer**<br>Dileu Colofn Asedau Seilwaith yn y prif dabl datgelu a chynnwys nodyn datgelu ar wahân ynghylch yr asedau. | Cydymffurfio â'r gofynion datgelu wedi'u diweddaru yn dilyn newidiadau i God CIPFA a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003. |
| £4,513,000 | **Nodyn 23 Datganiad Llif Arian Parod – Gweithgareddau Gweithredu**<br>Cynyddu (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr/Derbyniadau Ymlaen Llaw £4,513,000 o (£15,282,000) i (£10,769,000)<br><br>Gostwng y llinell arall £4,513,000 o £23,296,000 i £18,783,000. | I adlewyrchu'n gywir y derbyniad ymlaen llaw a dderbyniwyd gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro |
|---|---|---|
| £267,000 | **Nodyn 32 – Partïon Cysylltiedig**<br>Diweddarwyd i gynnwys datganiad aelod fel Ymddiriedolwr a Chyfarwyddwr Mind Dyffryn Clwyd y talodd y cyngor £267,000 iddo. | Sicrhau bod yr holl ddatganiadau perthnasol yn cael eu datgelu'n fanwl gywir. |
| £12,798,000 | **Mantolen y Grŵp**<br>Gostwng Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn £8,657,000 o £1,700,000 i (£6,957,000).<br>Gostwng Cronfa Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn heb eu cymhwyso £4,141,000 o (£6,957,000) i (£11,098,000).<br>Cynyddu Cronfeydd Enillion a Cholledion Wrth Gefn, £12,798,000 o (£11,098,000) i £1,700,000. | Sicrhau bod balansau cronfeydd wrth gefn y grŵp yn cael eu datgan yn gywir. |
| £2,057,000 | **Mantolen y Grŵp**<br>Gostwng y Cyfrif Addasu Cyfalaf £2,057,000 o (£224,330,000) i (£226,387,000).<br>Cynyddu'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig £2,057,000 o (£2,057,000) i £0. | Er mwyn dileu balansau o fewn y grŵp. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro |
|---|---|---|
| £1,063,000 | **Datganiad Grŵp ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn**<br>Gostwng addasiadau rhwng Cyfrifon Grŵp a Chyfrifon Awdurdod £1,063,000 o £4,577,000 i £3,514,000.<br><br>Cynyddu addasiadau technegol £1,063,000 o (£953,000) i £110,000. | Er mwyn dileu balansau o fewn y grŵp. |
| Amrywiol: newidiadau cyflwyniadol eraill i nodiadau ategol | Gwnaed nifer o welliannau naratif, cyflwyniadol a mân ddiwygiadau eraill i nodiadau datgelu ategol. | Sicrhau bod yr holl ddatgeliadau yn cael eu cyflwyno'n gywir. |

# Atodiad 4

## Argymhellion

Rydym yn nodi’r holl argymhellion sy'n deillio o'n harchwiliad gydag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn codi’r materion hyn y flwyddyn nesaf ac yn cynnwys unrhyw faterion sy'n weddill yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf:

**Arddangosyn 5: materion yn codi 1**

| **Mater yn codi 1 – Prisiadau asedau eiddo** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Mae'r Cyngor yn prisio ei bortffolio asedau eiddo bob pum mlynedd ar sail dreigl, yn unol â Chod CIPFA (y Cod). Fodd bynnag, mae'r Cod hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau wirio na fu unrhyw symudiadau perthnasol yng ngwerth asedau yn y cyfnod rhwng prisiadau ffurfiol.<br>O ystyried pwysau chwyddiant diweddar, byddai gwerthoedd asedau o dan y dull cost amnewid dibrisiedig yn debygol o fod yn destun cynnydd sylweddol mewn gwerth yn ystod 2021-22.<br>O ganlyniad, cynhaliodd y Cyngor ymarfer i godi gwerth yr asedau yr effeithiwyd arnynt yn 2021-22 gan ddefnyddio mynegeion priodol y diwydiant. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Cyngor gynnwys adolygiad cyffredinol o werthoedd asedau eiddo gan ddefnyddio gwybodaeth fel data'r Gwasanaethau Gwybodaeth am Gostau Adeiladu, fel rhan o'r broses brisio flynyddol, er mwyn sicrhau nad yw gwerth cario asedau ymlaen nad ydynt yn cael eu prisio yn ystod y flwyddyn yn berthnasol wahanol i'r gwerth presennol ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **Manteision gweithredu'r argymhelliad** | Trwy wneud yr adolygiad hwn yn rhan o brosesau prisio asedau a gwneud unrhyw newidiadau gofynnol i werthoedd asedau (ar gyfer asedau nad ydynt yn cael eu prisio'n ffurfiol yn ystod y flwyddyn), bydd y Cyngor yn sicrhau nad yw gwerthoedd ei asedau eiddo yn cael eu camddatgan yn berthnasol. |

| Mater yn codi 1 – Prisiadau asedau eiddo | |
|---|---|
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Mae adolygiad o werth asedau eiddo bellach wedi'i gynnwys fel rhan o'r broses brisio flynyddol a bydd unrhyw welliannau gofynnol yn cael eu gwneud yn seiliedig ar ddata'r Gwasanaeth Gwybodaeth am Gostau Adeiladu (ar gyfer asedau cost amnewid dibrisiedig) a chwyddiant prisiau tai (ar gyfer anheddau'r cyngor). |
| **Dyddiad gweithredu** | 31 Mawrth 2024 |

Archwilio Cymru
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.